



YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH



- Cymreictod • Parchu ein gilydd • Gwneud ein gorau glas •

ysgolgybraeg.cymru



12/11/2024

Wythnos Gwrth fwlio

Bydd wythnos nesaf yn wythnos gwrth fwlio. Ar ddydd Mawrth mi fydd y Pwyllgor Gwrth fwlio yn cynnal gwasanaeth ysgol gyfan gan edrych ar beth sy'n gwneud ffrind da. Bydd cyfle i bawb hefyd wisgo sanau gwahanol 'Sanau Sili' ar y dydd Mawrth i ddangos ein cefnogaeth i'r wythnos. Bydd y disgyblion yn gwneud tasgau amrywiol ar y thema gwrth-fwlio yn ystod yr wythnos.

Anti-bullying Week

Next week will be anti-bullying week. On Tuesday the Anti-bullying Committee will hold a whole school assembly looking at what makes a good friend. There will also be an opportunity for everyone to wear odd socks 'Silly socks' on the Tuesday to show our support for the week. The pupils will do various tasks on the anti-bullying theme during the week.



15/11/2024

Plant Mewn Angen

Ar ddydd Gwener yr 15fed o Dachwedd mi fyddwn yn cynnal digwyddiadau i gefnogi Plant Mewn Angen. Diolch yn fawr i'r Pwyllgor Dyngarol am drefnu digwyddiadau'r diwrnod sef i ddod i'r ysgol mewn gwisg ffansi neu pyjamas ac ati am gyfraniad o £1, yna 'Sgen ti Dalent? yn y Neuadd yn ystod y dydd! Lot o sbri gobeithio!

Children in Need

On Friday the 15th of November we will be holding events to support Children in Need. Many thanks to the Humanitarian Committee for organizing the day's events namely to come to school in fancy dress or pyjamas etc. for a donation of £1, then 'Sgen ti Talent? (Have a go) in the Hall during the day! Lots of fun I hope!



Côr yr ysgol

Mae ymarferion côr yr ysgol yn parhau er mwyn dod o hyd i 50 o blant i'w cynnwys yn y perfformiadau canlynol:

- Tachwedd 25ain – Ffair Aeaf
- Tachwedd 28ain – Cyngerdd Maer y Dref

Bydd mwy o wybodaeth am y ddau ddigwyddiad hwn yn eich cyrraedd maes o law.

School Choir

The school choir's rehearsals continue in order to choose 50 children to take part in the following performances:

- November 25th – Winter Fair
- November 28th – Mayor's Concert

More information about these two events will be shared with you in soon.

Y Gymraeg

Braf oedd gweld Cledan o ddosbarth Y Castell yn dangos ei glustffonau newydd sbon a enillodd ar raglen Stwnsh Sadwrn yn ddiweddar!

Mae Stwnsh Sadwrn yn wych, ac yn rhaglen dylai fod ar deledu pawb fore dydd Sadwrn!

[Stwnsh Sadwrn | S4C](#)

The Welsh language

It was great to see Cledan from Y Castell class showing his brand-new headphones which he won on the Stwnsh Sadwrn programme recently!

'Stwnsh Sadwrn' is fantastic, and something that should be on everyone's TV on Saturday morning!

[Stwnsh Sadwrn | S4C](#)



